



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Diolch am gwblhau'r holiadur.

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi 'map' y gallwch ei ddilyn i greu Cynllun pwrpasol i'ch sefydliad. Cofiwch, mai eich Cynllun chi yw hwn! Rydym yn cynnig penawdau isod, a byddwn yn eich annog i gwblhau pob un. Mae croeso i chi newid eu trefn neu newid y ffont a'r lliwiau fel eu bod yn cyd-fynd â'ch brand chi.

Blaenoriaeth y Comisiynydd yw cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. I wneud hyn, mae'n bwysig cynllunio sut mae eich sefydliad am ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Efallai bod gennych bolisi neu gynllun iaith mewn lle yn barod. Bydd creu **Cynllun Datblygu'r Gymraeg** yn eich galluogi chi i fynd gam ymhellach i gynnal a gwella'ch gwasanaethau Cymraeg, ac yna gallwch eu hyrwyddo ar ffurf eich '**Cynnig Cymraeg**'.

Dyma esbonio'r camau nesaf:

Cam 1 Canlyniadau'r holiadur – mae eich sgoriau yn y tabl isod

Ystyriwch eich sgôr ar gyfer eich darpariaeth bresennol-
Beth allwch chi wneud yn well?
Sut rydych am gynnal y gwasanaeth?

Cam 2 Llunio eich Cynllun Datblygu'r Gymraeg gyda help y Tîm Hybu

- Cytuno ar dargedau rhesymol ar sut i gynnal a gwella eich gwasanaethau Cymraeg – siaradwch gydag un ohonom ni i wneud hyn.
- Gosod logo eich sefydliad, eich nod a'ch cenhadaeth (y penawdau isod).
- Nodi pam fod y Gymraeg yn bwysig i'ch sefydliad.

Cam 3. Rhannwch eich Cynllun Datblygu gyda ni i adnabod eich '**Cynnig Cymraeg**'

Byddwn yn eich helpu i adnabod y prif bethau rydych chi'n eu cynnig yn Gymraeg, er mwyn ffurfio eich Cynnig Cymraeg. Dyma uchafbwyntiau eich cynllun i'w hyrwyddo gyda'ch cwsmeriaid a'ch staff.

Cam 4. Derbynn cydnabyddiaeth gan y Comisiynydd

Os ydych wedi gweithio gyda ni i ddatblygu'ch Cynllun a'ch Cynnig Cymraeg, cewch gydnabyddiaeth gan y Comisiynydd a logo'r cynllun i'w arddangos a chefnogaeth gennym i hyrwyddo'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig.

Rydym ar gael i'ch cefnogi drwy bob cam o'r ffordd. Yn wir, byddwn yn eich hannog i gysylltu i drafod ymhellach: hybu@cyg-wlc.cymru
...mae'r dudalen hon i'w dileu ar ôl cwblhau'r broses...

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri



Cynllun



Datblygu'r Gymraeg

Wedi ei baratoi gyda chymorth Tîm Hybu
Comisiynydd y Gymraeg
Derbyniodd gydnabyddiaeth y
Comisiynydd ar XXXX



Ein sefydliad

Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yng Ngogledd Orllewin Cymru yn gweithredu trenau stem drwy Barc Cenedlaethol Eryri. Sefydlwyd Rheilffordd Ffestiniog ym 1832, ac mae'n gwmni rheilffordd annibynnol hynaf y byd. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol i gludo llechi o Flaenau Ffestiniog i'r porthladd ym Mhorthmadog. Mae Rheilffordd Eryri, a ailadeiladwyd ddiwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif, yn rhedeg o Gaernarfon i Borthmadog, lle mae'n cysylltu â Rheilffordd Ffestiniog. Gyda'i gilydd, mae'r rheilffyrdd yn cynnig dros 40 milltir o drac cul parhaus, gan arddangos tirweddau mynyddig ac arfordirol godidog, locomotifau stêm hanesyddol, a pheirianneg Fictoraidd.

Mae Cwmni Rheilffordd Festiniog yn Gwmni Statudol a ffurfiwyd gan Ddeddf Seneddol (yn rhagflaenu Cwmniau Cyfyngedig). Ein cyfranddaliwr mwyafrifol yw Ymddiriedolaeth Elusenol (Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri).

Rydym yn Rheilffordd Dreftadaeth yn y Diwydiant Twristiaeth.

Mae gan y cwmni 148 o staff (90 yn barhaol / 58 yn dymhorol) a dros 500 o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd.

Nodau ac Amcanion

1) Amddiffyn a gwarchod ein locomotifau hanesyddol, ein cerbydau a'r seilwaith sy'n ymgorffori gorffennol diwydiannol y rheilffyrdd, gan rannu'n weithredol y straeon, y bobl a'r traddodiadau a luniodd eu hanes i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

2) Darparu 'profiad twristiaeth o ansawdd uchel' i ymwelwyr, sy'n cydbwysu pryderon amgylcheddol ac gofynion economaidd.

3) Cydweithio â'r gymuned leol i sicrhau bod ein proses penderfyniadau yn ystyried materion sy'n cwmpasu'r amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant lleol.

4) Datblygu ein gwasanaethau a'n cyfleusterau yn rheolaidd er mwyn aros yn hyfyw mewn byd sy'n newid yn barhaus.

5) Datblygu ffrydiau incwm amrywiol, cynyddu ymgysylltiad gwirfoddolwyr, a buddsoddi mewn seilwaith i sicrhau dyfodol hirdymor y rheilffyrdd.

Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a’n cwsmeriaid

Rydym yn creu y cynllun hwn fel y gallwn adolygu ein Polisi Iaith Gymraeg yn rheolaidd a chwilio am ffyrdd y gallwn wella ein cynnig drwy gydol y flwyddyn. Bydd y cynllun hwn yn ein helpu i nodi meysydd yr ydym yn perfformio'n dda ynddynt a meysydd y gallwn wella.

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu gan ein bod yn fusnes Cymraeg wedi'i leoli yng Ngwynedd ac mae llawer o'r gymuned leol yn siaradwyr Cymraeg rhugl. O fewn y gymuned hon, mae gennym ddyletswydd i gynrychioli'r Gymraeg yn y ffordd orau bosibl ac ymgorffori'r iaith yng nghalon popeth a wnawn.

Ein Cynnig Cymraeg

HYSBYSEBIR SWYDDI GWAG YN DDWYIEITHOG...

Rydym yn rhestru pob un o'n swyddi parhaol a thymhorol yn ddwyieithog ar ein gwefan, gan gynnwys y disgrifiadau swydd a'r ffurflenni cais. Mae hyn yn bwysig iawn gan ei fod yn golygu y gall ymgeiswyr wneud cais llawn am unrhyw rôl, drwy gyfrwng y Gymraeg.

LLOFNODION E-BOST 'YSGRIFENWCH ATAF YN GYMRAEG NEU SAESNEG'...

Rydym wedi ychwanegu llofnod e-bost dwyieithog a baner 'Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg' ar droedynnau e-bost mwyafrif helaeth ein haelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn ei gwneud yn glir i'n cwsmeriaid Cymraeg, pa aelodau o staff sy'n gallu cyfathrebu ac ateb eu hymholiadau yn Gymraeg.

ARWYDDION DWYIEITHOG AR DRAWS EIN RHEILFFYRDD...

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod rhan helaeth o'n arwyddion, posteri, baneri ac amserlenni ar draws ein gorsafoedd gwahanol yn hollol ddwyieithog fel bod cwsmeriaid yn gallu darlloen gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL DWYIEITHOG...

Ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ('Facebook', 'X', 'Instagram' a 'YouTube') rydym yn gwneud ymdrech barhaus i sicrhau fod y cynnwys sy'n cael ei bostio yn gwbl ddywieithog.

ANNOG SGILIAU IAITH GYMRAEG...

Rydym yn ymwybodol bod gennym gyfrifoldeb i annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein staff a'n gwirfoddolwyr ac felly, ar y mwyafrif helaeth o'n swyddi gwag parhaol a thymhorol, rhestrir sgiliau Cymraeg fel sgil dymunol. Rydym hefyd yn annog 'agwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o'r Gymraeg' ar ein hysbysebion Gwirfoddolwyr amrywiol.

Y swyddog cydlyn

Yr Adran Farchnata fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun hwn a nhw fydd yn cysylltu â'r tîm Hybu. Osian Hughes (Rheolwr Marchnata) fydd y prif gysylltiad yn yr Adran Farchnata.

Cyfnod adolygu

Byddwn yn adolygu'r cynllun ar y 1af o Dachwedd 2026.

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Delio â phobl					
Wyneb i wyneb					
Mae modd i gwsmeriaid siarad gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os ydynt yn gofyn am hynny	③	Mae gennym aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfarch cwsmeriaid wyneb i wyneb y rhan helaeth o'r amser ar draws ein gwasanaethau ac gorsafoedd gwahanol. Yng ngorsaf Porthmadog, mae aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael yn ein swyddfa archebu, swyddfeydd masnachol ac ein mannau arlwyio. Yng Ngorsaf Caernarfon mae pob aelod o staff yn saiaradwyr Cymraeg, tra bod Gorsaf Tan y Bwlch hefo aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar bob adeg. O ran siaradwyr Cymraeg ar ein trenau, mae hyn yn amrywio o ddiwrnod i ddiwrnod oherwydd argaeledd staff a gwirfoddolwyr. Er hyn, mae gennym nifer fawr o staff a gweirfoddolwyr sy'n gweithio ar y trenau sydd yn siaradwyr rhugl Cymraeg neu yn ddysgwyr. Rydym yn rhestru'r Gymraeg fel sgil dymunol ar gyfer llawer o'n swyddi tra'n recriwtio. Ein nod yw parhau i ddosbarthu bathodynnau 'Cymraeg' a 'Dysgwyr' i staff a gwirfoddolwyr sydd eu hangen. Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi mwy o hyder i gwsmeriaid wrth ddechrau sgwrs yn Gymraeg gyda'n staff.		Adran Fasnachol	Parhaus
Dros y ffôn					

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Mae rhai o'n swyddogion yn gallu delio â galwadau yn y Gymraeg	③	Mae gennym aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfarch cwsmeriaid dros y ffôn y rhan healeth o'r amser. Mae y mwyafrif o alwadau i'r cwmni yn cael ei drin gan ein tîm swyddfa archebu. O fewn y tîm hwn, mae dros y hanner yr aelodau parhaol yn siaradwyr Cymraeg ac felly mae modd i gwmeriaid siarad yn Gymraeg hefo aelod o staff y rhan mwyaf o'r amser. Yn ogystal, mae ein Hadran Fasnachol, sy'n goruchwyllo Marchnata, Lletygarwch a Gwerthiant a Phrofiad Ymwelwyr y cwmni, bellach yn cael ei chyd-reoli gan dri rheolwr, sydd i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Felly, mae modd i amrywiaeth o ymholiadau cwsmeriaid gael ei drafod hefo siaradwr Cymraeg.		Adran Fasnachol	Parhaus
Ymateb i lythyrau ac e-byst					
Rydym yn ceisio ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth ond nid yw hyn bob amser yn bosib	③	Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbyniwn, drwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu llythyrau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn arwain at rywfaint o oedi ond yn aml gallwn ymateb yn brydlon. Mae gan y mwyafrif o'n staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl lofnod e-bost dwyieithog a baner 'Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg' ar droedyn eu e-bost.		Adran Fasnachol	Parhaus
Danfôn llythyrau ac e-byst					
Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig ar rai prosiectau ond nid ar bob achlysur.	②	Pan fydd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael rydym yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog wrth anfon llythyrau ac e-byst. Er nad yw hyn yn bosibl ar bob achlysur / prosiect, rydym yn gwneud ein gorau i gyfathrebu'n ddwyieithog pryd bynnag y gallwn. Mae gan y mwyafrif o'n staff sy'n siarad		Adran Farchnata / Adran TG	Gaeaf 2026

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		Cymraeg lofnod e-bost dwyieithog a baner 'Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg' ar droedyn eu e-bost. Rydym am adolygu ein baneri e-bost dros gyfnod y Gaeaf, i sicrhau fod pob aelod o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, hefo'r llofnod cywir ar ei e-bost.			
Ydych chi'n cadw cofnod o ddewis iaith eich cwsmeriaid neu ddefnyddwyr? E.e. ar excel neu CRM					
Mae ganddo ni fasdata, ond does dim cofnod o ddewis iaith cwsmer	①	Ar hyn o bryd nid ydym yn gofyn nac yn cadw gwybodaeth am ddewis iaith ein cwsmeriaid. Mae'n bosib y gallwn adolygu hyn fel ein bod yn ystyried opsiynau lle gall gwsmeriaid ofyn i dderbyn gohebiaeth gennym e.e. cylchlythyrau ac ati, drwy gyfrwng y Gymraeg, yn Saesneg neu yn ddwyieithog.		Adran Farchnata / Adran TG	Gaeaf 2026
Iaith Gwaith Mae rhai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo nwyddau iaith Gwaith	②	Mae rhai aelodau staff a gwirfoddolwyr yn gwisgo nwyddau iaith Gwaith tra'n gweithio ar y rheilffyrdd. Er hyn mae yna rhai siaradwyr Cymraeg ddim yn gwisgo unrhyw nwyddau iaith Gwaith. Mae gennym Adnoddau Iaith Gwaith newydd mewn stoc sydd ar gael i'w ddosbarthu i staff a gwirfoddolwyr sydd heb.		Adran Farchnata	Parhaus
Mae gan ein swyddogion sy'n siarad Cymraeg droednodyn e-bost sy'n nodi eu bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg	③	Mae gan y mwyafrif o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg lofnod e-bost dwyieithog ynghyd â baner 'Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg', sy'n ei wneud yn glir eu bod yn gallu gohebu yn y ddwy iaith. Ein nod yw parhau i ychwanegu'r faner hon at lofnodion e-bost staff newydd sy'n gallu siarad Cymraeg, yn y dyfodol.		Adran Farchnata / Adran TG	Parhaus
Delwedd					

Commented [ML1]: Awgrymaf dy fod yn archebu Adnoddau iaith gwaith i'w cadw yn y swyddfa fel stoc. Na i aanfon linc i ti yn y rebost.

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Enw eich cwmni neu sefydliad Mae ein henw yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig	③	Er mai enw ein cwmni yw; 'Ffestiniog & Welsh Highland Railways', defnyddiwn hwn a'n henw cwmni Cymreig; 'Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri' mewn llawer o'n ffurflenni ac adnoddau hyrwyddol gwahanol ac mae gennym logo ar wahân ar gyfer ein enw Cymraeg. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein logo Cymraeg ar gynifer o ddogfennau â phosibl.		Adran Farchnata	Parhaus
Nodwch os yw'r pethau isod ar gael yn:					
Cardiau busnes Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	①	Mae anghysondebau o ran cardiau busnes ein staff, gan fod rhai ohonynt yn gwbl ddwyieithog tra bod gan eraill Saesneg ag rhywfaint o Gymraeg. Byddwn yn gweithio drwy ein cardiau busnes staff ac yn anelu at gyrraedd pwynt lle bydd pob cerdyn busnes newydd yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn y dyfodol.		Adran Farchnata	Hydref 2026
Papur pennawd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mae ein papur pennawd yn gwbl ddwyieithog.		Adran Farchnata	Parhaus
Adnoddau marchnata— ee Pop-ups / Baneri / Posterï (digidol a statig) Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	①	Mae rhai o'n deunyddiau Marchnata, statig a digidol, yn ddwyieithog ond mae yna rhai eithriadau ac anghysondebau. Rydym am wneud ymdrech i sicrhau bod pob adnodd marchnata newydd yn cael ei greu yn		Adran Farchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		ddwyieithog neu hefo fersiwn Saesneg a Cymraeg ar wahan.			
Llofnod e-bost Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mae rhan fwyaf o llofnodion e-bost ar draws y cwmni wedi cael eu diwedddaru fel bod gan y mwyafrif o staff sy'n siarad Cymraeg bellach lofnod e-bost dwyieithog ynghyd â baner 'Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg', sy'n ei wneud yn glir y gallant ohebu yn y ddau iaith. Ein nod yw parhau i ychwanegu'r faner hon at lofnodion e-bost staff newydd sy'n gallu siarad Cymraeg.		Adran Farchnata / Adran TG	Parhaus
Pecynnu Saesneg yn unig	①	Nid oes gennym lawer o fanylion ar ein pecynnu, yn aml dim ond enw ein cwmni ynghyd â manylion cyfeiriad sydd wedi ei gynnwys. Dros gyfnod yr Gaeaf, bydd yr adran Marchnata ac ein Adran Siop yn trafod os fydd hi'n bosib i sicrhau fod y pecynnu yn gallu cynnwys ein henwau/logos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn dilyn y trafodaethau hyn, rydym yn bwriadau datrys y mater erbyn yr Gwanwyn.		Adran Siop / Adran Marchnata	Gaeaf 2026
Bwydlenni Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	①	Mae ein bwydlenni yn ein arlwywyr yng Ngorsaf Caernarfon, Caffi De Winton, yn gwbl ddwyieithog. Yn achos Spooner's a Ystafelloed De yn Nhan-y-Bwlch, mae bwydlenni yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd gan fod y bwydlenni yn newid yn rheolaidd sy'n golygu mai dros dro yn unig y mae'r bwydlenni a gynhyrchir ar hyn o bryd. Rydym yn anelu i gael bwydlenni Cymraeg ar gael yn Spooner's a Tan y Bwlch erbyn Gaeaf 2026.		Adran Arlwyo / Adran Farchnata	Gaeaf 2026
Proffil ar y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	Mae gan bob un o'n proffiliau cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, Instagram, YouTube a TikTok) 'bios' dwyieithog, sy'n rhoi disgrifiad byr o'n cwmni.		Adran Farchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	①	Yn 2026, Saesneg yn unig oedd ein prif daflen amserlen wybodaeth, tra bod taflenni eraill sy'n hyrwyddo digwyddiadau amrywiol ac ati yn bennaf yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg, er ein bod yn cynhyrchu rhai taflenni megis ein 'Taflenni Dolig' yn gwbl ddwyieithog. Er ein bod yn parhau i argraffu a dosbarthu y mwyafrif o'n taflenni gwybodaeth yn Saesneg ar gyfer twristiaid, rydym am argraffu swm o daflenni Cymraeg hefyd, fel ein bod yn gallu cynnig nhw i ymwelwyr sy'n dymuno fersiwn Gymraeg yn ein gorsafoedd.		Adran Farchnata	Hydref 2026
Arwyddion Mwyafrif dwyieithog	②	Ar hyn o bryd mae gennym gymysgedd o arwyddion papur a digidol ar draws ein rheilffyrdd, llawer ohonynt yn ddwyieithog ac rhywfaint yn Saesneg yn unig. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu gwneud pob arwydd newydd yn ddwyieithog lle mae'n bosib.		Adran Farchnata	Parhaus
Digidol					
Gwefan					
Mae ychydig o gynnwys ein gwefan / rhai tudalennau ar gael yn Gymraeg	①	Mae gennym rhai dudalennau ar ein gwefan sy'n gwbl ddwyieithog, ac mae mwyafrif o'n Eitemau Newyddion yn cael eu postio yn Gymraeg a Saesneg. Blwyddyn nesaf, byddwn yn anelu i gyfieithu detholiad o'r tudalennau yn gwbl ddwyieithog.		Adran Farchnata	Hydref 2026
Cyfryngau Cymdeithasol					

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Mae'r mwyafrif o'n negeseuon yn ddwyieithog. Mewn rhai achlysuron byddwn yn postio'n Saesneg yn unig.	③	Rydym yn postio'n ddwyieithog ar ein cyfryngau cymdeithasol trwy'r amser.		Adran Farchnata	Parhaus
Gwasanaethau Cymraeg eraill					
Digwyddiadau Wrth drefnu digwyddiad ydych chi'n gofyn i'r mynychwyr beth yw eu dewis iaith cyn y digwyddiad, neu wrth iddynt gofrestru?					
Dewis iaith mynychwyr					
Nid ydym yn gofyn beth yw dewis iaith mynychwyr	①	Nid ydym yn gofyn i fynychwyr ein digwyddiadau am eu dewis iaith ar hyn o bryd, ond rydym am geisio ychwanegu botwm dewis iaith at ein ffurflenni archebuyn y dyfodol.		Adran TG / Adran Farchnata	Parhaus
Pan fyddwch yn trefnu digwyddiad sydd ar agor i'r cyhoedd beth yw iaith yr isod:					
Gwahoddiadau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	②	Mae ein gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau i raddau helaeth yn ddwyieithog. Bydd ein Adran Marchnata yn parhau i sicrhau, lle bo modd, bod pob gwahoddiad i ddigwyddiadau yn cael ei anfon yn ddwyieithog.		Adran Marchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Ffurflenni ee archebu / cofrestru / adborth Mwyafrif Saesneg	①	Yn bresennol, Saesneg yn unig yw ein ffurflenni digwyddiadau archebu, cofrestru a gwerthuso, ond rydym yn anelu i gyflwyno nodwedd lle gall ymwelwyr ddewis a hoffent dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fydd hyn yn cael ei weithredu, rydym yn gobeithio gallu cynnig ffurflenni archebu, cofrestru a gwerthuso yn Gymraeg hefyd.		Adran TG, Swyddfa Archebu, Adran Farchnata	Gaeaf 2026
Cyhoeddiadau ee rhaglen, pecyn mynychwyr Mwyafrif Saesneg	①	Mae ein cyhoeddiadau ar gyfer digwyddiadau e.e. rhaglen / pecyn mynychwyr yn bennaf yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg. Os gallwn gyflwyno system lle gallant ddarganfod dewis iaith cwsmeriaid / ymwelwyr cyn eu hymweliad, gallwn ddarparu deunydd dwyieithog iddynt. Rydym yn amcangyfrif y ffordd orau i wneud hyn bydd ychwanegu opsiwn i ddewis ffafriaeth iaith tra'n cofrestru ar gyfer ein cylchlythyrau ar ein gwefan.		Adran TG, Adran Farchnata	Gaeaf 2026
Arwyddion Mwyafrif dwyieithog	②	Mae llawer o'n harwyddion yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i wneud bob ymdrech i sicrhau bod arwyddion newydd sy'n cael ei codi ar draws y Rheilffordd yn ddwyieithog.		Adran Farchnata	Parhaus
Baneri / Pop-ups / Arddangosfeydd Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	②	Mae gennym gymysgedd o faneri / 'pop-ups' / arddangosfeydd, llawer ohonynt yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg, tra bod eraill yn Saesneg yn unig ac mewn rhai achosion maent yn ddwyieithog. Rydym yn ceisio ailddefnyddio'r baneri / 'pop-ups' / arddangosfeydd hyn lle mae'n bosib, fodd bynnag, yn y dyfodol, pan fyddwn yn		Adran Farchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		archebu deunyddiau newydd, byddwn yn sicrhau ei bod yn ddwyieithog, neu os yw hyn ddim yn bosib byddwn yn archebu fersiwn Saesneg ac fersiwn Cymraeg.			
Staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr / cystadleuwyr Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	②	Mae llawer o'n staff / gwirfoddolwyr yn ddwyieithog, tra bod rhai yn ddysgwyr ac eraill ddim yn gallu siarad Cymraeg. Felly, er na allwn warantu y bydd staff / gwirfoddolwyr ar gael ar bob adeg i gyfarch ymwelwyr / cystadleuwyr yn Gymraeg, yn y rhan fwyaf o achosion bydd gennym rywun ar gael sydd o leiaf yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.		Adran Farchnata	Parhaus
Tocynnau (system gofrestru ee eventbrite?) Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	①	Ar hyn o bryd dim ond trwy e-bost y byddwn yn rhoi tocynnau yn Saesneg, ond rydym yn bwriadu cynnig hwn yn ddwyieithog erbyn diwedd tymor 2026.		Adran Farchnata, Swyddfa Archebu	Gaeaf 2026
Hyfforddiant					
Nid ydym yn gallu cynnig hyfforddiant yn Gymraeg ar hyn o bryd	①	Nid oes gennym y cyfleusterau i gynnal cyrsiau hyfforddi ddwyieithog na'r gallu i gynnig gwasanaeth cyfieithu 'byw' ar hyn o bryd. Efallai fod hyn yn rhywbeth y gallem ei gyflwyno yn y dyfodol ond nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg penodol i'r busnes.		Adran Farchnata	Parhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Datblygu Gweithlu					
Recriwtio staff a gwirfoddolwyr		Recriwtio: ystyried y Gymraeg			
Rydym yn nodi bod y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer bob swydd newydd	②	Rydym yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer pob swydd staff newydd. Nid yw wedi'i gynnwys mewn hysbysebion Gwirfoddolwyr, yn hytrach rydym yn tueddu i ddefnyddio'r ymadrodd "agwedd gadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg" neu rywbeth tebyg.		Adran Farchnata / Adran Adnoddau Dynol	Parhaus
Hysbysebu swyddi gwag Rydym yn hysbysebu pob swydd newydd yn ddwyieithog	③	Mae pob un o'n swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog. Yn y dyfodol, bydd ein swyddi gwag yn cael eu rhestru ar y gwefannau canlynol: Golwg360 Safle Swyddi Lleol Swyddle		Adran Farchnata / Adran Adnoddau Dynol	Parhaus
Cofnodi sgiliau Cymraeg eich gweithlu					
Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n swyddogion yn gallu siarad Cymraeg	①	Ar hyn o bryd does gennym ddim rhestr swyddogol sy'n nodi sgiliau Cymraeg ein staff. Er hyn, mae rhan helaeth o staff sy'n gallu siarad Cymraeg hefo llofnod e-bost sy'n cadarnhau ei bod yn gallu ateb yn Gymraeg. Rydym am		Adran Adnoddau Dynol / Adran Farchnata	Gaeaf 2026

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		anelu i wneud rhestr swyddogol o aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn cychwyn blywddyn nesaf.			
Rhoi gwybod i'ch gweithlu am eich gwasanaethau Cymraeg					
Nid oes unrhyw beth mewn lle	①	Nid oes unrhyw system mewn lle ar hyn o bryd.		Adran Farchnata	Parhaus
Dylanwadu ar bartneriaid ac aelodau i gynnig gwasanaethau Cymraeg					
Nid ydym yn ystyried y Gymraeg wrth weithio gyda phartneriaid ac aelodau.	①	Nid oes unrhyw system mewn lle ar hyn o bryd.		Adran Farchnata	Parhaus
Dysgu a defnyddio'r Gymraeg					
Nid ydym yn cynnig unrhyw wersi Cymraeg i'n staff	①	Does dim gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i'n staff ar hyn o bryd. Er hyn, rydym yn awyddus i weithio ynghyd â'r Tîm Hybu sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda chynllun Cymraeg Gwaith. Fel rhan o'r bartneriaeth yma byddwn yn		Adran Adnoddau Dynol / Adran Farchnata	Gaeaf 2026

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Lefel targed blwyddyn 3	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		derbbyn cyfleoedd a opsiynau i ni gefnogi ein gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.			